Helo o Begwn y Gogledd!

Eleni rydym ni yma i ledaenu rhywfaint o hud y Nadolig gyda chenhadaeth arbennig iawn!

Eleni, mae Siôn Corn wedi gofyn i ni eich helpu chi gyda phrosiect gwych; un a fydd yn dod â llawenydd a charedigrwydd i eraill.

Gyda'n gilydd, rydym ni'n mynd i lenwi bocs gydag eitemau bwyd i helpu teuluoedd sydd angen ychydig o lawenydd ychwanegol y Nadolig hwn.

Bob dydd, byddwn ni'n gadael eitem newydd i chi ei rhoi yn y bocs. Erbyn y Nadolig, bydd gennym ni focs cyfan o nwyddau i'w rhoi agwneud gwahaniaeth mawr!

Bob bore, pan fyddwch chi'n deffro, chwiliwch y tŷ am eitem newydd a'i ychwanegu at eich casgliad. Gadewch i ni weld pa mor llawn y gallwn ni ei wneud!

Po fwyaf rydym ni'n ei roi, y mwyaf o hud y Nadolig rydym ni'n ei ledaenu!

Mae Siôn Corn a'r holl goblynnod mor falch ohonoch chi am rannu eich ysbryd gwyliau gydag eraill.

Rydych chi'n helpu i wneud y byd yn lle mwy disglair, caredig, a dyna'r anrheg Nadolig mwyaf ohonyn nhw i gyd!

Gyda llawer o gariad a hud y Nadolig...

Waw!

Mae Siôn Corn wedi gofyn i mi roi ei ddiolch am eich help gyda'r genhadaeth arbennig iawn!

Mae pawb ym Mhegwn y Gogledd wedi clywed am y gwaith gwych wnaethoch chi yn casglu bwyd i helpu'r rhai mewn angen.

Mae mor bwysig helpu eraill pan allwn ni a bydd y bwyd rdych chi wedi'i gasglu yn gwneud gwahaniaeth mor fawr i deuluoedd eraill!

Os wnaethoch chi fwynhau helpu, efallai y gallwch chi gasglu i eraill eto y flwyddyn nesaf?!
Diolch eto! Nadolig Llawen!

Gyda llawer o gariad a hud y Nadolig...